



**Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol
a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf 2026 am 09:30 trwy gyfrwng Zoom**

YN BRESENNOL

Cynrychiolwyr y Cyflogwyr:

Dafydd Edwards, Cynghorydd

Aelodau'r Cynllun

PST Dawn Docx, Cymdeithas yr Arweinwyr Tân

Geraint Evans, cynrychiolydd y System Dyletswydd ar Alwad (gadawodd am 10.05)

Ruth Bateman, Undeb y Brigadau Tân (Cadeirydd)

Cynghorwyr

PSTC Helen MacArthur

Martin Morgan, Cronfa Bensiwn Dyfed

Beccy Marfleet, Swyddog Pensiynau

Yn Bresennol

Heledd Evans, Cyfieithydd

Ffion Evans, Cynorthwydd Gweithredol

YN ABSENNOL

Y Cynghorydd Gwynfor Owen, Aelod o'r Awdurdod Tân

Y Cynghorydd Bryan Apsley, Aelod o'r Awdurdod Tân

1 YMDDIHEURIADAU

1.1 Cynigiwyd a derbyniwyd ymddiheuriadau ar gyfer:

- Paul Kay
- Kim Jeal, Arweinydd Technegol Pensiynau Tân
- Y Cynghorydd John Brynmor Hughes, Aelod o'r Awdurdod Tân

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

2.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant i'w cofnodi.

3 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

3.1 Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 02 Ebrill 2026 a 03 Gorffennaf 2026 yn wir a chywir.



4 DIWEDDARIAD YNGHYLCH MATERION CYFREITHIOL

- 4.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur yr adroddiad ynghylch materion cyfreithiol a oedd yn nodi'r gofynion a'r rhwymedigaethau statudol a osodwyd gan y newidiadau i ddeddfwriaeth Cynllun Pensiwn y Sector Cyhoeddus, yn benodol Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Gelwir y rhain gan amlaf yn ymarferion rhwymedi pensiwn McCloud ac O'Brien (Matthews 2).
- 4.2 Yn ogystal, roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Prosiect Dangosfwrdd Pensiynau, prosiect cenedlaethol sy'n cael ei weithredu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).
- 4.3 Rhoddodd y PSTC MacArthur yr wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd ar gyfer Rhwymedi McCloud, gan gynghori bod achosion wedi'u prosesu gan Ogledd Cymru a Dyfed a bod y cynnydd cyffredinol yn gadarnhaol, gyda lefel gref o ymgysylltiad gweithredol gan aelodau. Dim ond nifer fach o hawliadau pensiwn cymhleth oedd yn dal heb eu talu, gyda'r cyfanswm bellach wedi'i leihau i ffigyrau sengl.
- 4.4 Nododd yr aelodau fod dau fwch sylweddol o fewn y rheoliadau ar hyn o bryd o ran Ymarfer Opsiwn Ail Ddewis Matthews, mewn perthynas â chydweithwyr ar alwad. Mae'r cyntaf yn ymwneud ag absenoldeb darpariaethau ar gyfer buddiolwyr, ac mae'r ail yn ymwneud ag unigolion sydd â bylchau yn eu cofnodion gwasanaeth. Mae'r materion hyn yn dal heb eu datrys er bod ymrwymiad gan swyddogion Llywodraeth Cymru.
- 4.5 Cynghorwyd yr Aelodau bod gweithredu yn dibynnu ar Lywodraeth Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth gyfatebol. Roedd angen cymeradwyaeth gan y Senedd cyn y gellid deddfu'r darpariaethau. Sicrhodd y PSTC MacArthur yr Aelodau fod y Gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a bod ymrwymiad wedi'i dderbyn i flaenoriaethu'r gwaith ar gyfer rheoliadau Matthews a'r diwygiadau sy'n amodol i'r penderfyniad ar gyfer McCloud, a bod disgwyl i'r ddeddfwriaeth angenrheidiol fod ar waith erbyn dechrau 2027.
- 4.6 Mynegodd y PSTC MacArthur werthfawrogiad o'r gwaith sylweddol a wnaed gan y fîm pensiynau, gweinyddwyr y cynllun, a'u timau priodol wrth gefnogi'r gwaith o gyflawni'r rhwymedi pensiynau.
- 4.7 Cynghorodd y PSTC MacArthur aelodau fod dau achos Gweithdrefn Datrys Anghydfodau Mewnol yn ymwneud â chymhwysedd i gael eu cynnwys yn ymarfer Matthews 2 a oedd wedi symud ymlaen i Gam 2 ac y byddent bellach yn mynd trwy'r broses sefydledig. Sicrhawyd yr aelodau y bydd diweddariad ar yr achosion hyn a'r sefyllfa gyffredinol yn cael eu darparu yn y cyfarfod nesaf.



- 4.8 Holodd y Cynghorydd ynghylch parodrwydd ar gyfer y Rhaglen Dangosfyrddau Pensiynau, gan nodi bod rhai gweinyddwyr Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi nodi cyfyngiadau o ran adnoddau a'u bod yn caffael cymorth ychwanegol gan ymgynghoriaethau allanol cyn i'r dangosfyrddau fynd yn fyw ym mis Hydref.
- 4.9 Rhoddodd Martin Morgan sicrwydd i'r Aelodau fod cyfatebiaethau dangosfwrdd llwyddiannus wedi'u derbyn trwy brofion defnyddwyr a gynhaliwyd yn dilyn Bwletin 106 Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Cymerodd naw aelod ran yn y profion, gyda'r holl gofnodion yn arwain at gyfatebiaeth lawn. Hysbyswyd yr aelodau bod y dangosfwrdd eisoes yn gweithredu yn y cefndir.
- 4.10 Sicrhawyd yr aelodau ymhellach bod y tîm technegol wedi ehangu o wyth i bedwar ar hugain o staff, a bod ansawdd data yn cael ei fonitro'n ddyddiol, ac roeddent yn hyderus bod y cynllun wedi'i baratoi'n llawn ar gyfer cyflwyno'r dangosfwrdd.
- 4.11 **PENDERFYNWYD:**
- i) **Nodi cynnwys yr adroddiad; a**
 - ii) **Nodi'r rhwymedigaeth statudol a roddir ar Reolwr y Cynllun i sicrhau bod pob un o'r 3 phrosiect cenedlaethol yn cael eu cyflwyno fel y cyfarwyddir gan y ddeddfwriaeth.**

5 ADRODDIAD DIWEDDARU – CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN

- 5.1 Cyflwynodd Beccy Marfleet adroddiad diweddaru Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân, a'i ddiben oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd Pensiwn Lleol am faterion cyfredol yn ymwneud â Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân gan gynnwys diweddariad ynghylch aelodaeth, Gwylio'r Gorwel a throsolwg o fwletinau a chylchlythyrau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.
- 5.2 Hysbyswyd yr aelodau bod ceisiadau am ad-daliadau yn dilyn cyhoeddi datganiadau gwasanaeth rhwymedi McCloud yn isel ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rhagwelwyd y byddai'r niferoedd yn cynyddu ar ôl cyhoeddi'r diweddariad blynyddol i'r aelodau.
- 5.3 Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm Pensiynau am eu gwaith caled parhaus a holodd a oedd y neges i'r aelodau, lle bo modd, yn parhau i fod y dylent roi cymaint o rybudd â phosibl i'r Tîm Pensiynau os oeddent yn gwybod eu dyddiad ymddeol arfaethedig.
- 5.4 Adleisiodd y Cynghorydd eu diolch i'r tîm Pensiynau a mynegodd bryderon ynghylch yr un unigolyn nad yw'n talu cyfraniadau pensiwn ar hyn o bryd.



- 5.5 Gofynnodd yr Ymgynghorydd fod adroddiadau yn y dyfodol yn cynnwys ffigurau cymharol o'r cyfnod adrodd blaenorol er mwyn galluogi aelodau i nodi a monitro tueddiadau yn well.



5.6 PENDERFYNWYD:

i) Nodi cynnwys yr adroddiad.

6 ADRODDIAD DIWEDDARU – GWEINYDDWR

- 6.1 Cyflwynodd Martin Morgan adroddiad y Gweinyddwr a oedd yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ar gynnydd nifer o brosiectau a oedd yn cael eu cynnal ar yr un pryd, ynghyd â darparu gwybodaeth am faterion perthnasol wrth weinyddu buddion y cynllun.
- 6.2 Nododd yr Aelodau fod un achos ysgariad yn weddill ar hyn o bryd a 37 o achosion a oedd yn gorgyffwrdd â rhwymedi McCloud. Roedd cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gyda GTAGC i symud ymlaen a datrys yr achosion hyn.
- 6.3 Anogodd Martin Morgan aelodau i hyrwyddo cyfranogiad yn rhaglen profi defnyddwyr dangosfyrddau pensiwn ymhlith eu cydweithwyr i helpu i gefnogi gweithgareddau profi ac ymgysylltu parhaus.
- 6.4 Rhoddodd y PSTC MacArthur sicrwydd i'r Aelodau fod camau'n cael eu cymryd mewn perthynas ag achosion o oedi wrth adleoli. Cadarnhaodd fod proses uwchgyfeirio 90 diwrnod wedi'i rhoi ar waith i helpu i symud achosion sy'n weddill ymlaen a gwella perfformiad.
- 6.5 Cydnabu'r PSTC fod prosesu ymddeoliadau bellach wedi dychwelyd i fusnes yn ôl yr arfer, a nodwyd hyn gan yr Aelodau. Nodwyd bod ymdrechion ar y cyd y ddau dîm wedi galluogi achosion ymddeoliad i gael eu prosesu mewn modd amserol.
- 6.6 Nododd y Cadeirydd nad oedd 46% o'r aelodau wedi cofrestru eto i gael mynediad at eu gwybodaeth pensiwn a gofynnodd sut y gallai aelodau gofrestru. Cydnabu'r PSTC MacArthur mai'r her yw sicrhau bod cyfathrebu i'r aelodau yn glir ac yn hawdd ei ddeall. Cytunodd y cadeirydd a'r PSTC MacArthur i gwrdd y tu allan i'r cyfarfod i drafod hyn ymhellach
- 6.7 Cynghorodd Martin Morgan fod angen i aelodau gael mynediad at wefan Dyfed a chreu cyfrif. Roedd yn ofynnol i aelodau a oedd wedi'u cofrestru o'r blaen o dan yr hen system porth aelodau ar-lein (Fy Mhensiwn Ar-Lein) gofrestru ar gyfer cyfrif newydd.

6.8 PENDERFYNWYD:

i) Nodi cynnwys yr adroddiad.



7 DIWEDDARIAD AR HYFFORDDIANT

- 7.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur y cyflwyniad i'r Aelodau ar ddarpariaethau salwch Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015. Amlinellodd yr hyfforddiant y fframwaith cyfreithiol sy'n llywodraethu penderfyniadau ac apeliadau ymddeol oherwydd salwch, gan bwysleisio pwysigrwydd gwneud penderfyniadau cyson a theg a chydymffurfio â'r gyfraith.
- 7.2 Amlygwyd rôl Rheolwr y Cynllun, gan gynnwys y gofyniad i gael ac ystyried cyngor gan Ymarferydd Meddygol Cymwysedig Annibynnol (YMCA) cyn gwneud penderfyniad a hysbysu'r aelod o'r canlyniad.
- 7.3 Pwysleisiodd yr hyfforddiant fod y rheoliadau'n darparu fframwaith statudol clir er mwyn sicrhau tegwch, tryloywder a llywodraethiant priodol, gyda risgiau allweddol yn ymwneud â chydymffurfiaeth weithdrefnol, ansawdd tystiolaeth a chwrdd â therfynau amser statudol.
- 7.4 Nododd yr Aelodau hefyd y sefyllfa bresennol o ran ymddeoliadau oherwydd salwch, heb unrhyw ddyfarniadau haen uwch wedi'u cofnodi naill ai yn 2024/25 neu 2025/26, a nifer fach o ddyfarniadau haen is wedi'u rhoi yn y ddwy flynedd ariannol.
- 7.5 Gofynnodd y Cadeirydd a oedd penodi Ymarferydd Meddygol Cymwysedig Annibynnol (YMCA) yn ôl disgrisiwn Rheolwr y Cynllun ac a oedd angen hyfforddiant penodol.
- 7.6 Cadarnhaodd y PSTC MacArthur fod yn rhaid i YMCA fod â chymwysterau a phrofiad priodol mewn lechyd Galwedigaethol. Nododd yr aelodau fod YMCA yn weithiwr lechyd Galwedigaethol proffesiynol cymwysedig sydd wedi'i achredu i ddarparu barn feddygol annibynnol at ddibenion cynllun pensiwn.

8 RHEOLI RISGIAU – CYDYMFFURFIO A RHEOLEIDDIO

- 8.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur ddiweddariad i'r Aelodau ar y trefniadau rheoli risg ar gyfer cydymffurfiaeth reoleiddiol.
- 8.2 Archwiliwyd a thrafodwyd yn fanwl y risgiau cydymffurfio rheoleiddiol a oedd wedi'u cynnwys ar y gofrestr fesul un.
- 8.3 Tynnwyd sylw'r aelodau at dudalen olaf yr adroddiad, a oedd yn amlinellu'r risgiau ariannu a llywodraethiant. Nodwyd bod y sgôr risg ariannu wedi cynyddu i 6, gan adlewyrchu lefel bresennol y risg a'r angen am fonitro parhaus.
- 8.4 Gofynnodd yr Ymgynghorydd i ddiweddariadau i'r gofrestr risg yn y dyfodol nodi'n glir unrhyw ddiwygiadau, er enghraifft trwy newidiadau



wedi'u tracio, er mwyn galluogi Aelodau i nodi newidiadau ers yr adroddiad blaenorol yn hawdd.

- 8.5 Awgrymodd y Cynghorydd hefyd y dylid cynnwys trosiant Aelodau'r Bwrdd fel risg ar y gofrestr, gan nodi bod hyn wedi'i gydnabod gan Fyrddau Pensiwn Lleol Awdurdodau Tân ac Achub eraill. Cytunodd y PSTC MacArthur i gynnwys hyn yn yr adran risg Cydymffurfiaeth a Llywodraethiant.

8.6 **PENDERFYNWYD:**

- i) **Ystyried a chymeradwyo'r asesiad o'r risgiau cydymffurfiaeth rheoleiddio sy'n gysylltiedig â chynllun pensiwn y diffoddwyr tân.**

9 BWRDD YMGYNGHORI'R CYNLLUN

- 9.1 Cyngorwyd yr Aelodau bod Bwrdd Cyngori'r Cynllun wedi cyfarfod ar 30 Mehefin 2026 a nododd fod mwyafrif y materion a drafodwyd yn y cyfarfod hwnnw wedi'u cynnwys ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod heddiw.
- 9.2 Derbyniodd yr aelodau ddiweddariad gan Lywodraeth Cymru a dywedwyd wrthynt fod angen newidiadau rheoleiddiol mewn perthynas â rhwymedïau McCloud a Matthews. Roedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi sicrwydd bod rhwymedi Matthews yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol. Nodwyd ymhellach fod Llywodraeth Cymru yn ystyried cymryd y newidiadau rheoleiddiol gofynnol ar wahân er mwyn ceisio cymeradwyaeth Ysgrifennydd y Cabinet.
- 9.3 Nododd yr aelodau hefyd bryderon sy'n deillio o'r diweddariad prisio diweddar, lle diwygiodd adran actiwari'r llywodraeth ei ffactorau actiwaraid. Yn hanesyddol, roedd y ffactorau hyn wedi cynyddu'n gyffredinol; fodd bynnag, arweiniodd y newidiadau diweddaraf at ostyngiad ac fe'u cyflwynwyd heb rybudd ymlaen llaw. Roedd nifer o aelodau wedi cael eu heffeithio gan y newidiadau a chysylltwyd â nhw yn unol â hynny. Nodwyd bod cais wedi'i wneud i fwrdd ymgynghorol y cynllun ysgrifennu at y trysorlys ynglŷn â'r pryderon hyn.

10 MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO AT SYLW'R AWDURDOD TÂN AC ACHUB

- 10.1 Dywedodd y PST wrth yr Aelodau fod unrhyw faterion yr oedd angen eu huwchgyfeirio wedi'u cyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub ddydd Llun 20 Gorffennaf 2026 a'u bod wedi'u cymeradwyo. Mae cymeradwyaeth hefyd wedi'i roi i archwilio'r argymhellion cysylltiedig.
- 10.2 Nododd yr Aelodau y byddai'r Cydweithrediad Pensiynau Cymru Gyfan yn cael ei gynnwys fel eitem sefydlog ar agenda'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn y dyfodol.

11 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

- 11.1 Cadarnhawyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 01 Hydref 2026 am 09:30.



11.2 Daeth y cyfarfod i ben AM 11:07O'R gloch